

CYNGOR CYMUNED Y FERWIG COMMUNITY COUNCIL

Cofnodion y Cyfarfod Cyffredinol a gynhaliwyd 3 Mawrth 2014 am 7.30yh yn Hen Ysgol y Ferwig

Presennol:

Cyng. Auriol Williams (*Cadeirydd*)

Cyng. Dilwyn Jenkins

Cyng. Llinos Price

Cyng. Morris Davies (*gadael 8.10*)

Cyng. Haydn Lewis (*Aelod lleol y Cyngor Sir*) (8.20)

Cyng. Des Davies (*Is-Gadeirydd*)

Cyng. Islwyn Iago

Cyng. Ann Stokoe

Cyng. Eurig Lloyd

Mrs Hildreth Owen (*Clerc*)

- 1. Croeso'r Cadeirydd:** Croesawodd y Cadeirydd bawb i gyfarfod mis Mawrth. Llongyfarchodd y Cyng. Des Davies a oedd wedi dathlu pen-blwydd arbennig yn ddiweddar. Hefyd dymunodd yn dda i'r Cyng. Llinos Price sydd newydd ddechrau ei swydd yn hunangyflogedig. Aethpwyd ymlaen wedyn i drafod yr agenda.
- 2. Ymddiheuriadau am absenoldeb:** Y Cynghorydd Huw Jones.
- 3. Cofnodion y cyfarfod cyffredinol blaenorol.**

Tud. 743 Eitem 122. "Bwlch wedi ei greu rhwng Ysgol Penyparc a Blaenpistyll"—nid Trefwtial.
Gyda'r cywriad uchod cynigiwyd gan y Cyng. Llinos Price ac eiliwyd gan y Cyng. Des Davies bod cofnodion mis Chwefror 2014 yn gywir.
- 4. Datgelu buddiannau personol:**

Gohebiaeth Rhif 9 [155] Llythyr o gefnogaeth i gais am grant gan Bwyllgor Neuadd a Lles y Ferwig: Y Cynghorwyr Auriol Williams, Dilwyn Jenkins ac Islwyn Iago.
- 5. Materion yn codi:**
 - (a) Gwefan i'r Cyngor:** Cytunwydd cyfarfod eto ar 11 Mawrth i drafod y deunydd sydd wedi dod i law.
 - (b) Llwybr troed sydd yn arwain o'r ffordd i'r traeth yn Gwbert:** Gofynnwyd i'r Clerc gysylltu gyda Mr Nigel Nicholas unwaith eto ynglŷn â'r arwyddion newydd.
 - (c) Agoriad Swyddogol Cae Gwyrdd, Penyparc:** Mae Ysgol Gymunedol Penyparc wedi cadarnhau y bydd disgyblion o'r ysgol yn cyflwyno eitem yn yr agoriad swyddogol ar 10 Ebrill. Gofynnwyd i'r Clerc gysylltu gyda'r Teifi Seid ynglŷn ag adroddiad yn y wasg.
 - (d) Ysbyty Aberteifi:** Ymateb oddi wrth Elin Jones AC i lythyr y Cyngor yn achwyn am y toriadau yng ngwasanaethau iechyd Ysbyty Aberteifi. Mae hefyd yn amgáu copi o lythyr anfonwyd ganddi i Mark Drakeford, Gweinidog Iechyd Llywodraeth Cymru. Bydd hefyd yn cyfarfod ag ef ynglŷn â'r mater hwn (gweler eitem 9[143]).
Ymateb Mr Chris Martin, Cadeirydd Bwrdd Iechyd Hywel Dda, a hefyd ymateb Mark Williams AS i'r uchod (gweler eitem 9 [149] a [150])
- 6. Ceisiadau am Gymorth Ariannol**

I'w penderfynu ym mis Ebrill a mis Hydref, yn unol ag adrannau 137 a 142 (CAB) o'r Ddeddf Ariannol 1996.

Urdd Gobaith Cymru	Dim
CAB (<i>adran 142</i>)	Dim
Ambiwlans Awyr Cymru	£100.00
Gŵyl Fawr Aberteifi	£100.00
Ras yr Iaith	Dim
Pwyllgor Neuadd a Lles y Ferwig	£500.00
Gŵyl Cerdd Dant Ystrad Fflur a'r Fro 2013	Dim
Clybiau Ffermwyr Ifainc Ceredigion YFCs	Dim
Gofal Mewn Galar	Dim
Cofeb Genedlaethol Cymru – Fflandrys (Un Llais Cymru)	Dim
Shelter Cymru	Dim

CYNGOR CYMUNED Y FERWIG COMMUNITY COUNCIL

Urdd Gobaith Cymru	Dim
Llyfrau Llafar Cymru	Dim
Cymdeithas Rhieni ac Athrawon Ysgol Gymunedol Penyparc	£100.00
Ysgol Feithrin, Penyparc	£100.00
Eisteddfod Genedlaethol Cymru (Sir Gâr)	I'w drafod ym mis Ebrill 2014
Urdd Gobaith Cymru (Eisteddfod yr Urdd Meirionnydd)	I'w drafod ym mis Ebrill 2014
Eisteddfod Gerddorol Rhyngwladol Llangollen	I'w drafod ym mis Ebrill 2014
NSPCC	I'w drafod ym mis Ebrill 2014
Victim Support	I'w drafod ym mis Ebrill 2014

(Enwau wedi eu hitaleiddio = cyfrifon wedi eu danfon i mewn gyda'r cais)

7. Cynllunio:

Cais wedi ei ganiatáu / gwrthod:

Rhif y Cais	Cyfeiriad a Bwriad	Penderfyniad y Cyngor Sir
A130807	Crugmore Farm, Penyparc. "Construction of (12.4ha) ground-mounted solar pv (6.375mw) and associated works".	Wedi ei ganiatáu.

8. Materion Ariannol.

Biliau wedi eu talu:

Cyllid a Thollau EM: Treth incwm y Clerc (Chwefror 2014)	101333	£73.00
Cyflog y Clerc (Chwefror 2014)	101334	£292.50
Costau'r Clerc (Chwefror 2014)	101335	£47.10
Canolfan Ieuentid Penyparc: Tâl am hurio'r ystafell 6 gwaith yn ystod 2013	101336	£90.00
C.Ff.I. Penyparc am lanhau'r ystafelloedd newid 5/12/13 – 5/3/14	101337	£216.00

Cynigiwyd gan Y Cyng. Ann Stokoe ac eiliwyd gan y Cyng. Des Davies bod y biliau uchod yn cael eu talu.

Derbyniadau. Dim.

Materion ariannol eraill: Dim.

9. Gohebiaeth:

138	Sefydliad Aren Cymru	Gwybodaeth ynglŷn â thaith noddedig i'w chynnal ddydd Sul, 27 Ebrill 2014.	Dogfennau ar gael gan y Clerc a'r Clerc i atgoffa aelodau am yr achlysur.
139	Cyngor Sir Ceredigion (Adran y Priffyrdd, Eiddo a Gwaith)	Cadarnhad o dderbyn llythyr yn achwyn ynglŷn â dŵr ar y ffordd yn tu allan i "Sealand", Patch.	Clerc i anfon llythyr at y Cyngor Sir yn mynegi eu barn bod yr amgylchedd wedi gwaethygu yn dilyn codi garej ar y safle.
140	Cymdeithas Genedlaethol er Atal Creulondeb i Blant (NSPCC)	Cais am gymorth ariannol.	I'w drafod ym mis Ebrill
141	Victim Support	Cais am gymorth ariannol.	I'w drafod ym mis Ebrill
142	Un Llais Cymru	Tâl aelodaeth am 2014-15 (£160)	Cytunwyd ymaelodi am y flwyddyn 2014-15
143	Elin Jones AC	Ymateb i lythyr y Cyngor ynglŷn ag Ysbyty Aberteifi	Gweler eitem 5(d)
144	Zurich	Llythyr ynglŷn ag yswiriant y Cyngor am y	Nodwyd

CYNGOR CYMUNED Y FERWIG COMMUNITY COUNCIL

		flwyddyn 2014-15 yn cynnwys cyfeiriad gwefan a fydd o gymorth i'r Cyngor.	
145	Cyngor Sir Ceredigion (Prif Weithredwr)	Gwybodaeth ynglŷn â Chyfarfod Ymgynghorol 2014 i'w gynnal nos Fercher, 26 Mawrth am 7 o'r gloch yn Ffestri'r Tabernacl, Aberteifi.	Cadeirydd a'r Clerc i fynychu'r cyfarfod. Y Clerc i anfon cwestiynau a sylwadau at y Cyngor Sir
146	Matthew Kieboom PCSO 1853	E bost yn cynnwys gwybodaeth i'r gymuned.	Copi wedi ei e-bostio at aelodau'r Cyngor. Y Clerc i anfon copi o'r cofnodion ymlaen i Matthew Kieboom.
147	Ceredigion Community Play Friendly Awards	Derbyniwyd e-bost oddi wrth Alison Kennedy ynglŷn â holiadur.	Copi wedi ei e-bostio at aelodau'r Cyngor. Nodwyd.
148	Cyngor Sir Ceredigion (Adran Gwasanaethau Cymdeithasol)	Holiadur Gwasanaeth Cwsmer	Y Clerc i gwblhau a'i ddychwelyd.
149	Mr Chris Martin (Cadeirydd Bwrdd Iechyd Hywel Dda)	Ymateb i lythyr y Cyngor ynglŷn ag Ysbyty Aberteifi	Nodwyd
150	Mark Williams AS	Ymateb i lythyr y Cyngor ynglŷn ag Ysbyty Aberteifi	Nodwyd
151	Cyngor Cymuned Eglwyswrw	E-bost yn gofyn i'r Cyngor gysylltu ag Asiantaeth Cefnffyrdd Canolbarth Cymru ynglŷn â'r goleuadau traffig ar TRA487 ger Gamallt, Aberteifi sydd wedi bod yno ers bron i ddwy flynedd.	Y Clerc i ysgrifennu at Edwina Hart AC.
152	Cyngor Sir Ceredigion (Pennaeth y Gwasanaethau Datblygu Economaidd a Chymunedol)	Copi cyhoeddedig y Cynllun Datblygu Lleol Mabwysiedig 2007-2022 sy'n cynnwys: Cyfrol 1 – Polisiâu. Cyfrol 2A – Datganiadau y Grŵp Aneddiadau, Cyfrol 2B – Mapiau Cynigion (gan gynnwys Mapiau Inset)	Copi ar gael gan y Clerc
153	Cyngor Sir Ceredigion (Pennaeth y Gwasanaethau Bwrdeistref ac Amgylcheddol)	Cadarnhad bod gwaith wedi ei gwblhau ar nifer o faterion yn ymwneud â phroblemau ar y ffyrdd.	Y Clerc i ofyn i'r Cyngor Sir ailedrych ar y gwteri ger Treprior a Chapel Ffynnonbedr a hefyd ger cyffordd Capel Siloam tuag at Fferm Heolcwn.
154	Cyngor Sir Ceredigion (Gwasanaethau Dysgu) RAY Ceredigion	Cynhadledd Chwarae Ceredigion, 24 Mawrth yng Ngwesty Tyglyn Aeron, 9.30-3.20. Arolwg o safleoedd chwarae yng Ngheredigion. (Cae Chwarae'r Ferwig a Chae Gwyrdd, Penyparc)	Y Cadeirydd a'r Clerc i gyfarfod i lenwi'r ffurflenni.
155	Pwyllgor Neuadd a Lles Y Ferwig	Cais am lythyr o gefnogaeth am grant i ail-wneud mynediad i iard Hen Ysgol y Ferwig.	Y Clerc i anfon llythyr ar ran y Cyngor.

CYNGOR CYMUNED Y FERWIG COMMUNITY COUNCIL

10. Materion Eraill:

- (a) **Cinio'r Cadeirydd:** Cytunwyd cynnal y digwyddiad ar ddydd Sul, 13 Ebrill yng Nghlwb Golff Aberteifi.
- (b) **Eitemau amrywiol i'r Adran Briffyrdd:** Gwteri ger Dolwerdd, Tremain a ger Fferm Lleine; ceubyllau ar y ffordd i Fferm yr Hafod; ymholiad ynglŷn ag arwydd "Private – No right of way" rhwng Felin a Blaenpistyll, Tremain; dŵr yn gorlifo gyferbyn i Engar, Gwbert; cais am yr eildro i dynnu arwydd y datblygwr oddi ar y ffordd o Gwbert tuag at Ferwig; llythyr am yr eildro i ailosod clwyd ar y llwybr rhwng stâd Dolwerdd a'r briffordd A487.
- (c) **Traeth yr Ogof Goch:** Gofynnwyd i'r Clerc gysylltu â Mr Nigel Nicholas ynglŷn â chyflwr y llwybr sydd yn amgylchynu'r traeth.
- (d) **Stigil ym mynwent Capel Penyparc:** Daeth i sylw'r Cyngor bod stepiau'r stigil rhwng mynwent Capel Penyparc a thir Fferm Penyparc wedi pydru. Gofynnwyd i'r Clerc ddarganfod perchnogaeth y stigil er mwyn ei chywiro.

11. Dyddiad Cyfarfod Cyffredinol nesaf y Cyngor: 7 Ebrill yn Ystafell Berkley, Penyparc am 7.30pm.

Cyfarfodydd y Cyngor am 2014

12 Mai (F: CB) 9 Mehefin (YB) 16 Gorffennaf (F) 1 Medi (YB) 6 Hydref (F) 3 Tachwedd (YB) 1 Rhagfyr (F)
Dynoda: F = Hen Ysgol y Ferwig YB = Ystafell Berkley CB = Cyfarfod Blynyddol

CYNGOR CYMUNED Y FERWIG COMMUNITY COUNCIL

Minutes of the Ordinary Meeting held on 3 March, 2014 at 7.30pm at Hen Ysgol y Ferwig

Present

Cllr Auriol Williams (*Chairperson*)
Cllr Dilwyn Jenkins
Cllr Llinos Price
Cllr Morris Davies (*left 8.10*)
Cllr Haydn Lewis (*Local member of
the County Council*)

Cllr Des Davies (*Vice Chairman*)
Cllr Islwyn Iago
Cllr Ann Stokoe
Cllr Eurig Lloyd
Mrs Hildreth Owen (*Clerk*)

1. Chairperson's welcome.

The Chairperson welcomed everyone to the March meeting. She congratulated Cllr Des Davies on celebrating a special birthday recently, and the council's best wishes were extended to Cllr Llinos Price on embarking on a new self-employed career. The Council then proceeded with the agenda.

2. Apologies for absence: Cllr Huw Jones.

3. Minutes of the previous meeting.

Correspondence Item 9[122]: "Access created between Penyparc School and Blaenpistyll" not Trefwtial. With the above amendment, it was proposed by Cllr Llinos Price and seconded by Cllr Des Davies that the February 2014 minutes were correct.

4. Declaration of personal interests: Correspondence [155]: Letter of support for a grant for "Pwyllgor Neuadd a Lles y Ferwig": Cllrs Auriol Williams, Dilwyn Jenkins and Islwyn Iago.

5. Matters arising:

- (a) **Council Website:** It was agreed to call a further meeting on 11 March to discuss the files received.
- (b) **The Path leading to the beach at Gwbert:** The Clerk was asked to contact Mr Nigel Nicholas for an update.
- (c) **Official Opening of Cae Gwyrdd play area, Penyparc:** Ysgol Gymunedol Penyparc confirmed the attendance of pupils to render an item at the official opening on 10 April. The Clerk was asked to contact the local press referring to the occasion.
- (d) **Cardigan Hospital:** A response to the council's letter complaining at the Health Board's cuts to the services at the hospital has been received from Elin Jones AM. Copies of the council's letter were forwarded to Mark Williams MP and Mark Drakeford AM (Health Minister at the Welsh Government). The local AM will consult with Mr Drakeford regarding these concerns (see item 9[143]).
A response was also received from Chris Martin, Chairman of the Hywel Dda Health Board, and from Mark Williams (see item 9[149] and [150]).

6. Requests for financial support.

To be discussed in April and October in accordance with Sections 137 and 142 (CAB) of the Finance Act 1996.

Urdd Gobaith Cymru	Nil
CAB (<i>section 142</i>)	Nil
Wales Air Ambulance	£100.00
Gŵyl Fawr Aberteifi	£100.00
Race for the Language	Nil
Pwyllgor Neuadd a Lles y Ferwig	£500.00
Gŵyl Cerdd Dant Ystrad Fflur a'r Fro 2013	Nil
Ceredigion YFCs	Nil
Cruse Bereavement Care	Nil
Welsh National Memorial – Flanders (One Voice Wales)	Nil
Shelter Cymru	Nil

CYNGOR CYMUNED Y FERWIG COMMUNITY COUNCIL

Urdd Gobaith Cymru	Nil
Talking Books Wales	Nil
PTA Ysgol Gymunedol Penyparc	£100.00
Ysgol Feithrin Penyparc	£100.00
Eisteddfod Genedlaethol Cymru (Sir Gâr)	To be discussed in April 2014
Urdd Gobaith Cymru (Eisteddfod yr Urdd Meirionnydd)	To be discussed in April 2014
Eisteddfod Gerddorol Rhyngwladol Llangollen	To be discussed in April 2014
NSPCC	To be discussed in April 2014
Victim Support	To be discussed in April 2014

(Names in italics = accounts forwarded with applications)

7. Planning:

Application approved by the County Council:

<i>Application No.</i>	<i>Address and Purpose</i>	<i>County Council decision</i>
A130807	Crugmore Farm, Penyparc. "Construction of (12.4ha) ground-mounted solar pv (6.375mw) and associated works".	Application approved.

8. Financial Matters.

Bills paid:

HMRC: Clerk's income tax (February 2014)	101333	£73.00
Clerk's salary (February 2014)	101334	£292.50
Clerk's expenses (February 2014)	101335	£47.10
Penyparc Youth Centre: Hire of room for 6 months during 2013	101336	£90.00
Penyparc YFC for cleaning changing rooms 5/12/13 – 5/3/14	101337	£216.00

It was proposed by Cllr Ann Stokoe and seconded by Cllr Des Davies that the above bills be paid.

Receipts: None.

Other financial Matters: None.

9. Correspondence:

138	Kidney Wales Foundation: Walk for Life	Information regarding sponsored walk, 27/4/14.	Leaflets with the Clerk. Members to be reminded at the next meeting.
139	Ceredigion County Council (Highways Department)	Confirmation of receiving letter with regard to floods at "Sealand", Patch.	Clerk to forward a letter stating that the flood situation had deteriorated since the garage was erected on the site.
140	NSPCC	Application for financial aid.	To be discussed at the April meeting.
141	Victim Support	Application for financial aid.	To be discussed at the April meeting.
142	One Voice Wales	Membership of One Voice Wales for 2014-15 (£160)	It was agreed to renew membership for 2014-15
143	Elin Jones AM	Response to the council letter expressing its concerns with the cuts to services at Cardigan Hospital.	See item 5(d)
144	Zurich	Information to Council of insurance services	Noted.

CYNGOR CYMUNED Y FERWIG COMMUNITY COUNCIL

		for 2014-15 with a helpline website.	
145	Ceredigion County Council (Chief Executive)	Information regarding Consultation Meeting, 26/3/14 at Tabernacl Vestry at 7.00pm.	Chairperson and Clerk to attend meeting. Questions and observations to be forwarded in advance.
146	PCSO Matthew Kieboom 1853	E-mail noting information to the community.	E-mail forwarded to all members. Copy of latest minutes to be forwarded to PCSO Kieboom.
147	Ceredigion Community Play Friendly Awards	Questionnaire received from Alison Kennedy.	E-mail forwarded to all members. Noted.
148	Ceredigion County Council (Social Service Department)	Customer Service Questionnaire.	Clerk to complete and return.
149	Mr Chris Martin (Chairman of Hywel Dda Health Board)	Response to letter stating Council's concerns regarding cuts to health services at Cardigan Hospital.	Noted.
150	Mark Williams MP	Response to letter stating Council's concerns regarding cuts to health services at Cardigan Hospital.	Noted.
151	Eglwysrwrw Community Council	E-mail requesting Council to contact the North & Mid Wales Trunk Road Agency regarding the long-term traffic lights on the TRA487 at Gamallt near Cardigan which have been in situ for nearly two years.	The Clerk to write to Edwina Hart AM stating the Council's concerns with the on-going situation.
152	Ceredigion County Council (Head of Economic & Community Development Services)	Published copy of the Adopted Local Development Plan (LDP) 2007-22 comprising of: Volume 1 – Policies. Volume 2A – Settlement Group Statements. Volume 2B – Proposal Maps (including inset maps).	Copy available for viewing with the Clerk.
153	Ceredigion County Council (Head of Municipal & Environmental Services)	Confirmation from the County Council that work has been carried out at various locations.	The Clerk to ask the department to reinspect the blocked gulleys near Treprior and Ffynnonbedr Chapel and near the junction of Siloam Chapel and Heolcwn Farm.
154	Ceredigion County Council (Learning Services) RAY Ceredigion	Ceredigion Play Conference, 24/3/14 at Tyglyn Aeron, Ciliau Aeron from 9.30am – 3.20pm. A review of all play areas in Ceredigion (Ferwig play area and Cae Gwyrdd, Penyparc)	Chairperson and Clerk to complete forms.
155	Pwyllgor Neuadd a Lles Y Ferwig	Application for a letter of support for a grant to improve the entrance at the Old School, Ferwig.	Clerk to forward a letter of support to the County Council.

CYNGOR CYMUNED Y FERWIG COMMUNITY COUNCIL

10. Other Matters:

- (a) **Chairman's Dinner:** It was agreed to hold the dinner on Sunday, 13 April at Cardigan Golf Club.
- (b) **Various issues for the Highways Department:** Gutters at Dolwerdd, Tremain and near Lleine Farm; potholes on the Hafod Farm lane; query regarding the "Private – No right of way" sign between Felin and Blaenpistyll, Tremain; water overflowing onto the coastal path near Engar, Gwbert; a further request to remove the developer's notice board on the Gwbert to Ferwig road; a further letter to replace the gate on the path between the Dolwerdd estate and the A487 highway.
- (c) **Traeth yr Ogof Goch:** The Clerk was asked to contact Mr Nigel Nicholas, Rights of Way and Countryside Ranger, regarding the condition of the pathway surrounding the cove.
- (d) **Stile at Penyparc Chapel Cemetery:** It was brought to the Council's attention that the stile leading from the cemetery to Penyparc Farm is in a poor state of repair. The Clerk was requested to trace ownership in order that repair work can be arranged.

11. Date of next General Meeting of the Council: 7 April at Ystafell Berkley, Penyparc at 7.30pm

Council Meetings in 2014

12 May (F: AGM) 9 June (YB) 16 July (F) 1 September (YB) 6 October (F) 3 November (YB) 1 December (F)

Denotes: F = Ferwig Old School. YB = Ystafell Berkley. AGM = Annual General Meeting